Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales



© Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales

# Cydlynydd Creadigol Llawrydd

3 diwrnod yr wythnos, o fis Hydref 2022 – Ebrill 2023

**Cyfradd**: £175 y diwrnod (ac eithrio TAW)

**Lleoliad**: Gweithio o adref. Gallwn gynnig gofod gweithio yn ein swyddfeydd yn Llanystumdwy neu Gaerdydd yn ôl yr angen.

**Dyddiad Dechrau**: 10 Hydref 2022

## Ynglŷn â'r rôl

Mae hon yn rôl gyffrous a chreadigol lle byddwch yn cefnogi datblygiad brand Llenyddiaeth Cymru ac yn ein helpu i adrodd ein stori. Byddwch yn helpu i weithredu ein Strategaeth Gyfathrebu, sy'n cynnwys llawer o ddisgyblaethau amrywiol, gan gynnwys marchnata, hyrwyddo digidol, a chysylltiadau cyhoeddus.

Mae'r prif gyfrifoldebau yn cynnwys cydweithio â staff sy'n cyflawni prosiectau i ddatblygu cynlluniau marchnata a hyrwyddo, a blaengynllunio ein hallbwn digidol. Bydd hyn yn golygu

creu a lledaenu cynnwys cyffrous ar gyfer ein sianelau digidol, ysgrifennu copi a golygu, a dadansoddi llwyddiannau ein gweithgareddau cyfathrebu. Bydd y rôl hefyd yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynulleidfaoedd, cyfathrebu effaith, a chynllunio cyfathrebu strategol.

Mae rhai o'r gweithgareddau allweddol y byddwch yn eu hyrwyddo yn cynnwys lansiad Rhaglen Gyrsiau Tŷ Newydd 2023, datgelu enwau'r awduron fydd yn cymryd rhan yn rownd nesaf Cynrychioli Cymru, digwyddiadau barddoniaeth yn y Senedd, yn ogystal â phrosiectau a cherddi gan ein tri bardd cenedlaethol.

Bydd y Cydlynydd Creadigol Llawrydd yn:

- Trafod a chyd-greu cynlluniau gweithredu cyfathrebu gydag arweinwyr prosiectau a thimau creadigol.
- Arwain ar flaen-gynllunio cynnwys digidol, a chreu'r cynnwys hwn yn barod i'w ryddhau.
- Ysgrifennu, golygu a phrawf-ddarllen copi.
- Creu a dylunio astudiaethau achos sy'n rhannu effaith sefydliadol.
- Diweddaru gwefan Llenyddiaeth Cymru.
- Darparu cyngor a chymorth i gydweithwyr ar ysgrifennu copi prosiect, straeon newyddion, negeseuon cyfryngau cymdeithasol, a mwy.
- Cofnodi, gwerthuso a dadansoddi 'analytics' digidol, ac adrodd yn ôl i'r Arweinydd Cyfathrebu.
- Helpu cyflawni Strategaeth Gyfathrebu Llenyddiaeth Cymru.
- Cynorthwyo i reoli brand Llenyddiaeth Cymru trwy sicrhau fod cynnwys yn dilyn ein canllawiau Arddull, Tôn Llais, a Brand.
- Cyfrannu at gynllunio cyfathrebu strategol pan fo'r angen.

## Amdanom ni

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu llenyddiaeth. Ein gweledigaeth yw Cymru sydd yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth. Rydym yn gweithio i **ysbrydoli cymunedau**, **datblygu awduron**, a **dathlu diwylliant llenyddol Cymru**. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau ledled Cymru a thu hwnt i gyflawni ein huchelgais dros wireddu sector mwy cyfartal. Ar sail ein dealltwriaeth fod gan lenyddiaeth y grym i wella a thrawsnewid bywydau, mae ein blaenoriaethau yn themâu sy'n llifo drwy bob agwedd o'n gwaith, sef **Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb**, **Iechyd a Llesiant**, a'r **Argyfwng Hinsawdd**.

Rydym yn **aelod o Bortffolio Celfyddydau Cymru** ag yn un o wyth **Cwmni Cenedlaethol**. Rydym yn dîm cyfeillgar a chreadigol sydd yn gweithio yn agos â'n gilydd drwy'r Gymraeg, Saesneg ac yn ddwyieithog ledled Cymru. Mae ein swyddfeydd wedi'u lleoli yn Llanystumdwy a Chaerdydd. Mae'r rôl hwn yn cyflenwi tra bod aelod o staff i ffwrdd ar wyliau estynedig, a bydd cyfnod o drosglwyddo'r awenau pan fydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau arni.

## Addasrwydd ar gyfer y rôl

Rydym yn chwilio am rywun sydd:

- Â'r gallu i aml-dasgio, i weithio yn dda dan bwysau, ac i flaenoriaethu dyletswyddau.
- Â phrofiad a dealltwriaeth o ddisgyblaethau cyfathrebu a marchnata
- Â phrofiad o reoli cyfryngau cymdeithasol sefydliadol, yn enwedig Twitter, Facebook, ac Instagram
- Â phrofiad o ysgrifennu copi a phrawf ddarllen
- Â sgiliau cyfathrebu cryf, sensitif, a phositif yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn berthnasol i gyfathrebu ysgrifenedig a llafar.
- Yn drefnus iawn ac yn gallu rheoli amser a blaenoriaethu tasgau.
- Â diddordeb mewn llenyddiaeth ac yng ngrym y celfyddydau i ymdrin â materion cyfiawnder cymdeithasol.

Mae profiad o'r canlynol yn ddymunol:

- Dylunio graffig
- Creu a golygu fideo ar gyfer cyfryngau cymdeithasol
- Datblygu cynulleidfaoedd, gan gynnwys ond ddim yn gyfyngedig i ddatblygu rhestrau marchnata

## Sut i wneud cais

Anfonwch y canlynol at post@llenyddiaethcymru.org:

- **Eich llythyr cais neu gais fideo**: Dylech egluro pam fod gennych ddiddordeb yn y rôl a sut rydych chi'n addas ar ei chyfer. Mae'r ddau fformat yn dderbyniol ac o werth cyfartal. (* Uchafswm o 2 dudalen A4 neu fideo 5 munud o hyd.)
- **Eich CV a manylion dau ganolwr** sy'n eich adnabod mewn cyd-destun proffesiynol.
- **Esiampl o'ch gwaith ysgrifenedig**, heb fod dros 1,000 gair.
- Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llenyddiaeth Cymru wedi ei chwblhau.

Os gwelwch yn dda darllenwch y **swydd ddisgrifiad a'r rhestr addasrwydd** uchod yn ofalus. Hefyd, darllenwch Gynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru 2022-2025.

Mae croeso cynnes i chi gysylltu â ni i gael trafodaeth anffurfiol am y rôl, neu i ofyn am ragor o wybodaeth. I sgwrsio gyda Branwen Llewellyn, Arweinydd Cyfathrebu, yn uniongyrchol, neu i drefnu sgwrs ffôn, e-bostiwch hi ar branwen@llenyddiaethcymru.org.